Beth yw Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr?

Fe sefydlwyd Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr mewn ymateb i'r angen cynyddol am gorff lleol a all weithredu fel llais ar ran busnesau yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r fforwm yn cynrychioli cwmnïau lleol o bob maint ac ym mhob sector er mwyn mynd ati ar y cyd i ymateb i faterion a datblygiadau lleol sy'n effeithio ar eu busnesau.

Beth yw prif nodau'r fforwm?

- **Llais cryf, cyfunol (ar lefel leol a chenedlaethol):-**

Gyda chymorth Uned Datblygu Economaidd y Cyngor mae Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr wedi sefydlu corff cryf ar gyfer casglu safbwyntiau busnesau lleol, safbwyntiau yn gellir eu cyfleu wedyn i'r awdurdod lleol, Llywodraeth Cynulliad Cymru neu unrhyw sefydliad perthnasol arall.

Mae'r Fforwm yn rhoi cyfle i fusnesau lleol gael sedd wrth fyrddau lle gwneir penderfyniadau, yn enwedig trwy waith y Bwrdd Gwasanaethau Lleol, sydd â chynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd Lleol, yr Ymddiriedolaeth GIG, Coleg Pen-y-bont, Heddlu De Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

- **Digwyddiadau busnes a rhwydweithio proffesiynol** - mae'r fforwm wedi sefydlu cyfleoedd ardderchog ar gyfer rhwydweithio a rhannu arfer gorau trwy'i raglen o ddigwyddiadau busnes.
- **Aelodaeth o'r Siambr Fasnach** - gall aelodau'r fforwm hefyd gyfranogi o fanteision aelodaeth o Siambr Fasnach De Cymru sydd newydd ei ffurfio.

Beth fyddai'n rhaid i mi ei wneud pe bawn yn dod yn aelod o'r fforwm?

Fyddai gennych chi **ddim rhwymedigaethau** o gwbl ond gobeithio y byddech yn;

- Mynychu rhai digwyddiadau busnes a drefnir gan neu ar y cyd ag Uned Datblygu Economaidd Cyngor Pen-y-bont ar Ogwr.
- Ymateb i ymgynghoriadau ynghylch materion penodol - h.y. yn mynegi'ch safbwyntiau am bynciau perthnasol.

A oes ffi?

Nac oes. Mae aelodaeth yn rhad ac am ddim, er y gall fod tâl am rai digwyddiadau ac achlysuron unigol (yn yr achosion hyn gallwch benderfynu drosoch chi eich hun a ydych yn mynd i fynychu). Mae'r rhan fwyaf o ddigwyddiadau a seminarau'n rhad ac am ddim.

A allaf fynychu digwyddiadau busnes os nad wyf yn aelod o'r fforwm?

Gallwch, ond trwy fod yn aelod byddech yn cael blaenoriaeth wrth archebu tocynnau ar gyfer digwyddiadau busnes a seminarau.

A oes Cadeirydd neu lefarydd gan y fforwm?

Oes. Y Cadeirydd i ddechrau yw Gareth Bray a'r is-gadeirydd yw Tony Lewis. Bydd Cadeiryddion yn y dyfodol yn cael eu dewis o blith yr aelodau a byddent yn cynrychioli'r aelodau mewn amryw gyfarfodydd a digwyddiadau ac yn llunio sylwadau ar gyfer datganiadau i'r wasg, a chyfweliadau radio neu deledu.

Bridgend
Business Forum
Fforwm Busnes
Pen-y-Bont ar Ogwr

Bridgend
Business Forum
Fforwm Busnes
Pen-y-Bont ar Ogwr

Bridgend… where business has a voice

Pen-y-bont… lle mae llais gan fusnesau

Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr
business@bridgend.gov.uk

What is the Bridgend Business Forum?

The Bridgend Business Forum has been established as a response to the growing need for a local organisation which can act as an effective voice for businesses in the county borough. The forum represents local companies of all sizes and across all sectors in order to respond collectively to local issues and developments that are having an impact on their businesses.

What are the main aims of the forum?

- **A strong, collective voice (at a local and national level):-**

With the support of the Council's Economic Development Unit the Bridgend Business Forum has established a strong body for collecting the views of local businesses which can then be voiced with the local authority, Welsh Assembly Government or any other relevant organisation.

The forum provides local businesses with the opportunity to have a seat at decision making tables, particularly through the work of the Local Service Board, on which is represented the Local Health Board, NHS Trust, Bridgend College, South Wales Police, Environment Agency, Welsh Assembly Government and Bridgend County Borough Council.

- **Professional networking and business events** - the forum has established excellent opportunities for networking and the sharing of best practice through its programme of business events.
- **Chamber of Commerce membership** - forum members can also share in the benefits of affiliation to the newly formed South Wales Chamber of Commerce.

What would I have to do if I became a member of the forum?

You would have **no obligations** at all but it is hoped that you would;

- Attend some business events organised by or in conjunction with the Bridgend Council's Economic Development Unit.
- Respond to consultations on specific issues - i.e. express your views on topics of relevance.

Is there a fee?

No. Membership is free, although there may be a charge for some individual events and functions (in these cases you can decide yourself whether to attend). Most events and seminars are free of charge.

Can I still attend business events if I am not a member of the forum?

Yes, but by being a member you would have priority booking for business events and seminars.

Does the forum have a Chair person or spokesperson?

Yes. The inaugural Chairman is Gareth Bray and the vice-chairman is Tony Lewis. Future Chairpersons will be chosen from amongst members and would represent members at various meetings and events and produce comments for press releases, radio or television interviews.

Bridgend
Business Forum
Fforwm Busnes
Pen-y-Bont ar Ogwr

Bridgend Business Forum
Fforwm Busnes Pen-y-bont ar Ogwr

Registration of interest
Mynegi diddordeb

☐ YES, I would be interested in becoming a forum member. Please add me to the list.

☐ BYDDAI, mi fyddai diddordeb gennyf mewn dod yn aelod o'r Fforwm. Ychwanegwch fi at y rhestr os gwelwch yn dda.

Name(s) / Enw(au) .....

.....

Company / Cwmni .....

.....

Address / Cyfeiriad .....

.....

.....

.....

.....

Tel No / Rhif Ffôn .....

Email / E-bost .....

.....

Please return to / Dychweler at:
Economic Development Unit,
Bridgend County Borough Council,
Innovation Centre, Bridgend Science Park,
Bridgend CF31 3NA

Tel / Ffôn: **01656 641721**
Email / E-bost: **business@bridgend.gov.uk**
Fax / Ffacs: **01656 641714**